


Galwedigaeth Gwaith Ieuenctid

Canllawiau i fyfyrwyr a chyflogwyr



Lluniwyd gan y cyrff proffesiynol sy'n dilysu ac yn cymeradwyo
hyfforddiant gwaith ieuenctid ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

Fersiwn Cymru Chwefror 2016

Pwy ddylai ddarllen y daflen hon?

Prif gynulleidfa'r daflen hon yw myfyrwyr newydd yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon sy'n astudio ar gyfer cymwysterau cydnabyddedig ym maes gwaith ieuencid. Gallai fod o gymorth i gyflogwyr a phobl eraill a chanddynt ddiddordeb mewn gwaith ieuencid. Cymwysterau cydnabyddedig yw rhai mae aelodau Cydbwyllgor y Safonau Addysg a Hyfforddiant wedi'u dilysu neu eu cymeradwyo. Mae modd ennill cymwysterau o'r fath mewn colegau addysg bellach neu brifysgolion.

Pwy yw aelodau Cydbwyllgor y Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS)?

ETS Lloegr, ETS Iwerddon, ETS Cymru a Chyngor Safonau Dysgu a Datblygu Cymunedau'r Alban.

Beth yw ystyr cydnabyddiaeth broffesiynol?

Bydd cyrff proffesiynol yn hyrwyddo galwedigaeth a'r bobl sy'n ymwneud â hi. Byddan nhw'n dilysu neu'n cymeradwyo hyfforddiant i ofalu y bydd cymwysterau'n cyd-fynd â safonau penodol. Ynglŷn â gweithwyr ieuencid, rhaid gofalu y bydd rhaglenni hyfforddi o safon uchel gyson ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, gweithwyr ieuencid a'r bobl ifanc sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Sut y bydda i'n gwybod a yw cymhwyster neu raglen yn gydnabyddedig?

Mae rhestr o gymwysterau ac iddynt gydnabyddiaeth broffesiynol ar wefan pob aelod o'r cydbwyllgor.

Ble y galla i ddefnyddio fy nghymhwyster cydnabyddedig?

Mae cymwysterau sydd wedi'u dilysu neu eu cymeradwyo yn docyn mynediad i'r alwedigaeth ac yn llwybr i swyddi yng ngwasanaethau ieuencid cynghorau lleol a mudiadau gwirfoddol. Mae nifer o sectorau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â phobl ifanc yn cyflogi gweithwyr ieuencid hefyd achos eu bod yn gwerthfawrogi eu medrau.

Pa wledydd sy'n cydnabod fy nghymhwyster?

Fe gydnabyddir cymwysterau sydd wedi'u dilysu neu eu cymeradwyo ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Bydd aelodau'r cydbwyllgor yn cydweithio i ofalu bod datblygiadau yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon yn gyfwerth. Felly, cydnabyddir cymwysterau proffesiynol gweithwyr ieuencid ledled y gwledydd hynny trwy brotocol cydnabod y cydbwyllgor.

Beth yw cymhwyster ac arno sêl bendith y Cydbwyllgor Negodi?

Cyfeirir at gymwysterau gwaith ieuencid yng Nghymru a Lloegr weithiau yn rhai mae'r Cydbwyllgor Negodi wedi'u cydnabod. Mae'r Cydbwyllgor Negodi dros Waith Ieuencid a Chymuned yn ymwneud â Chymru a Lloegr ac, felly, mae cymhwyster o'r fath yn un mae ETS Lloegr neu ETS Cymru wedi'i gydnabod ar ran y Cydbwyllgor Negodi.

Mae'r Cydbwyllgor Negodi yn rhan o Gyflogwyr Llywodraeth Leol. Mae'n cynnwys carfan y cyflogwyr a charfan y gweithwyr. Bydd y ddwy garfan yn cwrdd i bennu cymwysterau, cyflogau, amodau a thelerau gweithwyr ieuencid.

Er y gallai rhai cyflogwyr yng Nghymru a Lloegr benodi gweithwyr ieuencid yn ôl amodau a thelerau y cytunwyd arnynt yn lleol, y farn yw mai cymwysterau'r Cydbwyllgor Negodi yw'r safon berthnasol.

Sut mae cymwysterau'n adlewyrchu anghenion cyflogwyr?

Mae cymwysterau gwaith ieuencid wedi'u llunio yn ôl dogfennau mae'r sector wedi'u cyhoeddi gan gynnwys *Safonau Galwedigaethol Gwladol Gwaith Ieuencid*, a ddefnyddir ar bob lefel, a *Datganiad Meincnod Pwnc Gwaith Ieuencid Asiantaeth y Diogelu Ansawdd*, a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau addysg uwch, hefyd. Bydd polisi pob gwlad yn dylanwadu ar gynnwys cymwysterau, hefyd.

Beth yw'r Safonau Galwedigaethol Gwladol?

Dyma safonau mae'r cyflogwyr wedi'u pennu i ddiffinio'r cymwyseddau angenrheidiol ar gyfer pob gweithlu yn y Deyrnas Gyfunol.

Mae'r safonau ar gyfer gwaith ieuenctid yn ategu cymwysterau cydnabyddedig yn y maes hwn.

Dyma ddiben gwaith ieuenctid yn ôl y Safonau Galwedigaethol Gwladol...

'Galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol gan gydweithio â nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, eu galluogi i feithrin eu llais, eu dylanwad a'u priod le yn y gymdeithas a'u helpu i gyflawni eu llawn dwf.'

Mae pawb wedi cytuno ar set o egwyddorion sy'n gwahaniaethu gwaith ieuenctid o'i gymharu â rhai gweithgareddau cyffelyb eraill sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae'r egwyddorion hynny wrth wraidd yr hyn sydd i'w gyflawni ym maes gwaith ieuenctid ac yn ategu'r safonau gan gydnabod mai hanfod gwaith o'r fath yw gweithgareddau y bydd pobl ifanc eu hunain yn eu harwain.

Mae egwyddorion gwaith ieuenctid wedi'u didoli yn ôl y penawdau isod:

- Cyfranogi a chymryd rhan yn weithgar
- Cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant
- Partneriaeth gyda phobl ifanc ac eraill
- Datblygu personol, cymdeithasol a gwleidyddol


Map cryno

Mae'r map isod yn nodi swyddogaethau a phrif agweddau'r hyn y bydd gweithwyr ieuenctid yn ei wneud i gyflawni diben allweddol eu gwaith. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw weithiwr ieuenctid yn ymwneud â hynny i gyd, fodd bynnag.

Dyw'r agweddau sydd wedi'u nodi ddim yr un faint nac o'r un cymhlethdod am eu bod yn adlewyrchu amryw weithgareddau a rolau y bydd unigolion yn eu cyflawni yn ôl eu profiad, eu cyfrifoldebau a'u statws.

Mae Safonau Galwedigaethol Gwladol Gwaith Ieuenctid 2012 ar gael ar <http://tinyurl.com/pr3lgoh> (Saesneg) <http://tinyurl.com/z35k6b6> (Cymraeg)

Map cryno



A1 Meithrin perthynas ac ymgysylltu â phobl ifanc

A2 Ymgysylltu â'r gymuned leol

A3 Meithrin perthynas a rhwydweithiau gwaith

B1 Hwyluso dysgu a datblygiad pobl ifanc trwy waith ieuenctid

B2 Cynllunio a gweithredu gweithgareddau dysgu mewn gwaith ieuenctid

B3 Hyrwyddo hunan ymwybyddiaeth, hyder a chyfranogiad pobl ifanc

B4 Hyrwyddo mynediad at wybodaeth a chefnogaeth

C1 Ymgysylltu mewn dialog feiriadol a gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo eu hawliau

C2 Diogelu iechyd a lles pobl ifanc

C3 Hyrwyddo cynhwysiant, tegwch a gwerthfawrogi amrywiaeth

C4 Cyflawni gofynion rheoleiddiol a sefydliadol

D1 Sefydlu a blaenoriaethu gofynion ar gyfer gwaith ieuenctid

D2 Cynllunio a gweithredu strategaeth gwaith ieuenctid

D3 Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd strategaeth a chynlluniau gwaith ieuenctid

E1 Rheoli eich hun

E2 Arwain a rheoli eraill

E3 Datblygu cydweithwyr

E4 Cynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle

Cynnydd: Trywydd cymwysterau gwaith ieuenctid yng Nghymru

Cymhwyster	Crynodeb	Cydnabyddiaeth y Cydbwyllgor Negodi	Credydau
Gwobr Lefel 2 16 oed neu'n hŷn	Eich paratoi chi ar gyfer dechrau gweithio gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.	Nac oes	Mae 11 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, bydd angen astudio am ryw 110 o oriau i'w ennill.
Tystysgrif Lefel 2 16 oed neu'n hŷn	Eich paratoi ar gyfer cynorthwyo mewn gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.	Oes – Cynorthwywr gweithiwr cymorth ieuenctid	Mae 26 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, bydd angen astudio am ryw 260 o oriau i'w ennill. Bydd 11 credyd ar gyfer Gwobr Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'. Rhaid ennill honno cyn dechrau astudio ar gyfer Tystysgrif Lefel 2.
Tystysgrif Lefel 3 18 oed neu'n hŷn	Eich paratoi chi ar gyfer arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd.	Oes – Gweithiwr cymorth ieuenctid	Mae 27 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, bydd angen astudio am ryw 270 o oriau i'w ennill. Mae 16 credyd ar Lefel 3 ac 11 ar Lefel 2 (Gwobr Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'). Rhaid ennill Gwobr Lefel 2 cyn dechrau astudio ar gyfer Tystysgrif Lefel 3.
Diploma Lefel 3 18 oed neu'n hŷn	Eich paratoi chi ar gyfer arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amryw sefyllfaoedd ac arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i chi neu eich gwaith.	Oes – Gweithiwr cymorth ieuenctid ar ôl ennill Tystysgrif Lefel 3	Mae 37 credyd i'r cymhwyster hwn. Felly, bydd angen astudio am ryw 370 o oriau i'w ennill. Mae 26 credyd ar Lefel 3 ac 11 ar Lefel 2 (Gwobr Lefel 2 'Arferion Gwaith Ieuenctid'). Rhaid ennill Gwobr Lefel 2 cyn dechrau astudio ar gyfer Diploma Lefel 3.
Lefel 6 Gradd BA (Anrh.) Gwaith Ieuenctid a Chymuned	Eich paratoi ar gyfer ysgwyddo cyfrifoldeb am gyflawni, llunio a datblygu gwaith ymhlith yr ifainc. Gallai fod disgwyl ichi ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli gweithredol, hefyd.	Oes – Gweithiwr ieuenctid cymwysedig	Mae 360 o gredydau yn y cymhwyster hwn yn ôl tair lefel mewn prifysgol. Lefel 4: Tystysgrif Addysg Uwch – 120 o gredydau Lefel 5: Diploma Addysg Uwch/Gradd Sylfaen – 120 o gredydau Lefel 6: Gradd BA (Anrh.) – 120 o gredydau
Lefel 7 Diploma Gwaith Ieuenctid a Chymuned i ôl-raddedigion	Fel sydd uchod.	Oes – Gweithiwr ieuenctid cymwysedig	Mae 120 o gredydau yn y cymhwyster hwn ar Lefel 7 mewn prifysgol.
Agored Cymru sy'n rhoi cymwysterau Lefel 2 a 3. Trwy Goleg Cymunedol YMCA Cymru neu gynghorau lleol y bydd modd astudio ar eu cyfer.			Mae rhaglenni Lefel 6 a 7 ar gael ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr (Wrecsam), y Brifysgol Agored, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin) a Phrifysgol De Cymru (Casnewydd).

Yng Nghymru...

Yn ôl **Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2014-18 Llywodraeth Cymru**, mae'n hanfodol i waith ieuenctid gyd-fynd â safonau lleiaf yr alwedigaeth a pharhau i fod yn drosglwyddadwy ledled y Deyrnas Gyfunol a'r tu hwnt.

Un o dargedau'r strategaeth yw cynyddu nifer y gweithwyr a chanddynt gymhwyster mae'r Cydbwyllgor Negodi wedi'i gydnabod ym maes gwaith ieuenctid.

Mae **Cyngor Gweithlu Addysg** wedi cynnig y dylai pob gweithiwr ieuenctid gofrestru o 2017. Mae rhagor o wybodaeth ar: www.ewc.wales

Darllen ychwanegol:

- Gwaith ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a dibenion
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-18
- Côd Moeseg Galwedigaethol Gwasanaeth Ieuenctid Cymru
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Ar gael ar: www.youthworkwales.org.uk / www.wales.gov.uk

Cysylltiadau defnyddiol:

Mae Cylch Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (PYOG) yn gymuned ddysgu broffesiynol ac ynnddi brif swyddogion ieuenctid 22 awdurdod lleol y Wlad. www.wlga.gov.uk/youth-service-cym

CWYS (Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru) ydy'r corff cynrychiadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. www.cwys.org.uk

Cydbwyllgor y Safonau Addysg a Hyfforddiant sy'n cyflawni swyddogaeth corff arbenigol gwaith ieuenctid a chymuned yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

Aelodau'r cydbwyllgor hwnnw, sy'n ei weinyddu, yw:

- ETS (Lloegr) www.nya.org.uk
- ETS (Iwerddon)
www.ycni.org/nsets/NSETS.html
- ETS (Cymru) www.etswales.org.uk
- Dysgu a Datblygu Cymunedau'r Alban
www.cldstandardscouncil.org.uk

